



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

20 Chwefror 2019

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Chyfarwyddwr Arweiniol GwE / Cadeirydd y Bwrdd Rheoli

Pwnc: Cynllun Busnes 2019-2020 - Blaenoriaethau Rhanbarthol

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno'r blaenoriaethau drafft rhanbarthol ar gyfer 2019-2020 i'r Cyd-bwyllgor eu cymeradwyo.

2.0 Cefndir

2.1 Mae'r cynllun busnes rhanbarthol yn nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwelliant ar draws y rhanbarth.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Fel yr amlinellir yn Atodiad 1, mae'r amcanion strategol yn cyd-fynd ag *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* (Llywodraeth Cymru), ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol:

1. Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel
 2. Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau
 3. Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles
 4. Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.
 5. Cwricwlwm trawsnewidiol
-

6. Busnes

3.2 Mae'r prif flaenoriaethau gwella wedi eu hadnabod fel a ganlyn:

- Gwella perfformiad yn y sector uwchradd :
 - Gwella systemau tracio ac asesu
 - Grymuso cyfundrefnau atebolrwydd a rheoli
 - Cael gwared ag amrywiad mewn ysgol
 - Datblygu ymhellach prosesau ar gyfer hunan arfarnu cadarn a chynllunio ar gyfer gwella
 - Arweinyddiaeth Ganol
- Cwricwlwm Trawsnewidiol
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Lles
- Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr Cymraeg
- Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth
- Dysgu ac Addysgu – Prosiect Rhanbarthol Shirley Clarke – Asesu Ffurfiannol
- Model Ymgysylltu â chymheiriaid
- Ail strwythuro'r gwasanaeth

3.3. Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

3.4 Mae'r cynllun busnes rhanbarthol yn gosod allan y blaenoriaethau ar draws y rhanbarth. Mae'r rhain ar Lefel 1, a chyfrifoldeb y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli yw eu cyflawni, fel y swyddogion atebol. Yn y pen draw, mae'r Cyd-bwyllgor yn gyfrifol am gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau.

3.5 Mae cynlluniau Lefel 2 a 3 blynyddol yn eistedd o dan y cynllun Lefel 1, ac ynddynt mae gwybodaeth fanylach ynghylch blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae cynlluniau Lefel 2 a 3 yn rhoi manylion ynghylch y camau gweithredu, yr allbynnau a'r meini

prawf llwyddiant i'w cyflawni. Mae'r fframwaith cynllunio busnes ar lefel 3 a ddatblygwyd yn sicrhau atebolrwydd, ac yn cynnig strwythur i fonitro cynnydd yn effeithiol.

3.6 Adroddir am gynnydd yn erbyn y cynllun busnes bob chwarter mewn cyfarfodydd Cyd-bwyllgor yn y dyfodol.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r blaenoriaethau rhanbarthol diwygiedig ar gyfer 2019-20.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Bu Bwrdd Rheoli GwE yn greiddiol wrth ddatblygu'r blaenoriaethau.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 - (Drafft) Amcanion Strategol a Blaenoriaethau Rhanbarthol

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Mae'r awdur yn datgan ym mharagraff 5 bydd dim goblygiadau ariannol ychwanegol yn deillio o'r adroddiad hwn, felly disgwylir y bydd GwE yn gweithredu'r cynllun i adlewyrchu'r blaenoriaethau o fewn ei gyllideb gyfredol.

